**CYPE(5)-32-19 – Papur i'w nodi 2**

**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/KW/5549/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Bae Caerdydd

12 Tachwedd 2019

Annwyl Lynne,

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch gweithgarwch Llywodraeth Cymru mewn ymateb i dri o'r argymhellion a ddeilliodd o'r adroddiad ar ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, *Bagloriaeth y Dyfodol*.

Mewn ymateb i'r argymhellion a ganlyn, mae swyddogion wedi llunio canllawiau, â chymorth Cymwysterau Cymru a CBAC. Mae'r canllawiau wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant cysylltiedig. Mae'r dudalen we yn cynnwys dolenni i'r tudalennau perthnasol ar wefannau CBAC a Cymwysterau Cymru.

***Argymhelliad 1.*** *Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad cliriach ynghylch ei gweledigaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru, a bod y datganiad yn cael ei ategu gan ganllawiau sy'n rhoi manylion am ei disgwyliadau o ran cysondeb darparu'r cymhwyster yng Nghymru a'r adnoddau y dylai ysgolion a cholegau sicrhau eu bod ar gael i addysgu'r cymhwyster yn effeithiol.*

***Argymhelliad 5.*** *Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, fel mater o flaenoriaeth, ganllawiau cryfach a mwy manwl ar y polisi sy'n ymwneud â mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol. Dylai'r canllawiau hyn nodi'n glir yr amgylchiadau lle gall dysgwyr gael eu heithrio rhag astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau, a dylai fod yn destun asesiad trylwyr a chynhwysfawr o effaith ar hawliau plant.*

Gweler y ddolen i'r wefan isod. Mae'n ymddangos yn yr adran 'Cymwysterau' o dan 'Canllawiau a gwasanaethau'.

Cymraeg - https://llyw.cymru/bagloriaeth-cymru
Saesneg - https://gov.wales/welsh-baccalaureate

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y nodwyd yn ein hymateb i'r adroddiad, mae gwybodaeth ac adnoddau ar gael i bawb gan CBAC a Cymwysterau Cymru ar eu gwefannau, gan gynnwys astudiaethau achos. Bydd unrhyw wybodaeth ac adnoddau pellach i ymarferwyr sy'n cyflwyno'r cymhwyster ar gael ar Hwb.

Un arall o argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oedd:

***Argymhelliad 2.*** *Bod Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yn cydweithio i ddarparu ymgyrch codi ymwybyddiaeth â ffocws ar gyfer busnesau a sefydliadau addysg uwch. Dylai'r ymgyrch hon geisio cynyddu dealltwriaeth o'r sgiliau a ddatblygir o dan Fagloriaeth Cymru ac annog mwy o gydweithredu gyda'r sectorau hynny wrth ei dylunio a'i darparu, er mwyn sicrhau eu hymgysylltiad a'u cefnogaeth.*

Mae Swyddogion wedi sefydlu grŵp cyfathrebu Bagloriaeth Cymru sy'n cynnwys aelodau o Cymwysterau Cymru, CBAC, Addysg Bellach a chonsortia rhanbarthol. Mae'r grŵp wrthi'n datblygu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o Fagloriaeth Cymru ymhlith dysgwyr, rhieni, cyflogwyr a phrifysgolion. Rydyn ni'n gobeithio lansio'r ymgyrch yn y flwyddyn newydd.


Cafwyd datblygiad pellach pan dderbyniodd Llywodraeth Cymru lythyr oddi wrth Cymwysterau Cymru yn rhoi gwybod am ei fwriad i roi'r gorau i gynnig Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen (ôl-16) a Thystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol (ôl-16) fel cymwysterau. Symbylwyd y penderfyniad hwn gan y ffaith fod nifer y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer y cymwysterau hyn ar lefel ôl-16 yn lleihau; yn 2018/19 nid oedd unrhyw ddysgwyr wedi cofrestru am y cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen (ôl-16) a 55 yn unig wedi cofrestru am gymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol (ôl-16). Ym marn Cymwysterau Cymru nid yw'r cymwysterau hyn yn hyfyw bellach a byddant yn cael eu tynnu'n ôl o fis Awst 2020 ymlaen. Rwyf ar ddeall fod Cymwysterau Cymru wedi'ch hysbysu am y datblygiad hwn, a gobeithiaf eich bod yn cytuno y dylai dileu'r cymwysterau hyn symleiddio'r gwaith o gyfathrebu diben Bagloriaeth Cymru, ac y dylai gael gwared ar yr argraff o ailadrodd wrth bontio o Gyfnod Allweddol 4 i addysg ôl-16.

Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru flog ar 24 Hydref sydd yn egluro sut y daethpwyd i'r penderfyniad hwn. Gweler y ddolen isod:

https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/bagloriaeth-cymru/the-latest-on-the-welsh-baccs-skills-challenge-certificate/

Byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch gweithredu argymhellion eraill y pwyllgor pan fo'n briodol.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education